
National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Taith gylchol Pen Dinas

Taith gylchol serth i fyny ac i lawr yn rhoi rhai o'r golygfeydd gorau ar arfordir Sir Benfro. Nid yw'n daith hir, ond yn sicr mae'n un wnaiff brofi eich ffitrwydd, gyda digonedd o resymau i aros ac edmygu'r olygfa.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Maes parcio traeth Pwllgwaelod, Pen Dinas, Sir Benfro, SA42 0SE.

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Llwybr arfordir serth, creigiog, llechweddau serth, grisiau, camfeydd a gât mochyn. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Croeso i gŵn ar dennyn – anifeiliaid gerllaw.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 3 (km: 4.8)

Hyd: 2 awr

## Tirwedd

Llwybr arfordir serth, creigiog, llechweddau serth, grisiau, camfeydd a gât mochyn.

## Cyfanswm y rhannau: 10

Man cychwyn: Maes parcio Pwllgwaelod, cyfeirnod grid: SN005398

1. O draeth Pwllgwaelod, trowch i'r dde i fyny'r bryn gan ddilyn arwyddion llwybr yr arfordir. Wrth y grid gwartheg, trowch i'r chwith trwy gât mochyn.
2. Mae'r llwybr yn dechrau codi'n serth ac mae'n cynnwys 40 o risiau. Byddwch yn mynd trwy rug ac eithin y naill ochr a'r llall. Ar ôl dringo'n galed byddwch yn cyrraedd sticill a bydd y llwybr yn mynd yn haws. Eich gwobr fydd golygfeydd gwych ar draws Bae Abergwaun.
3. Bydd y llwybr yn mynd yn serth yn glou eto ac wrth i chi fynd o gwmpas cornel, fe welwch ran uchaf Pen Dinas, Pen-y-Fan o'ch blaen. Daw Trefdraeth i'r golwg ar y llaw dde.
4. Oedwch wrth biler triongli'r Arolwg Ordnans i orffwys a mwynhau'r golygfeydd tua'r gogledd hyd glogwyni Pen-yr-Afr a thua mynyddoedd y Preseli.
5. Bydd y daith ar i lawr yn bennaf o'r fan hon, ond yn serth. Dilynwch y llwybr lawr y bryn. Tua 55 llath (50m) tu hwnt i gât mochyn mae'r llwybr yn rhannu. Mae prif lwybr yr arfordir yn plymio i'r chwith – gallwch ei weld yn dolennu o gwmpas yr arfordir. Os bydd hynny'n edrych yn rhy fentrus gallwch ddilyn llwybr llydan ar hyd y ffens ar y dde i chi. Bydd y ddau lwybr yn uno eto yn nes ymlaen.
6. Tua hanner milltir (0.75 km) ar ôl i'r llwybrau rannu, gwyliwch am Garreg y Nodwydd oddi tanoch. Bydd adar môr, gan gynnwys gwylogod, yn magu yma yn gynnar yn yr haf.
7. Daw bae Cwm-yr-Eglwys i'r golwg. Ewch trwy'r gât mochyn, sy'n arwain at ran gysgodol o'r llwybr, ond byddwch yn ofalus: mae'n garegog gyda gwreiddiau coed.
8. Mae pont droed bren yn arwain i'r ffordd. Dilynwch y ffordd i lawr i Gwm-yr-Eglwys a heibio'r toiledau ar y dde.
9. Dilynwch y llwybr ar hyd ochr dde'r iard gychod, gyda'r arwydd 'Pwyllgwaelod 2/3 mile', a cherdded yn syth ymlaen trwy'r maes parcio ac ar hyd carafanau sydd ar y dde. Fe welwch y llwybr troed wrth ymyl ffens o baneli pren yn y gornel dde bellaf.

10. Cerddwch yn ôl i Bwllgwaelod trwy'r cwm ar hyd llwybr tarmac. Wrth i lefel y môr godi, gall Pen Dinas fod yn ynys eto un diwrnod.

Man gorffen: Maes parcio Pwllgwaelod, cyfeirnod grid: SN005398